Cyfeirnod(au) y Papur

**6923/01**

# Edexcel GCE

## Busnes Cymhwysol

Uned 8: Datblygu Busnes

**Aseiniad a Osodir yn Allanol**

Mehefin 2007

Rhif Log yr Argraffwr
N29827A

N 2 9 8 2 7 A

W850/6923/57570 2/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unig yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited. ©2007 Edexcel Limited.

edexcel
advancing learning, changing lives

**Senario**

Rydych chi wedi dymuno gweithio i chi'ch hun erioed ac wedi breuddwydio am redeg eich busnes eich hun. Yn ddiweddar, cawsoch gymynrodd (*legacy*) gan eich tad-cu/taid neu fam-gu/nain o £10 000 ac rydych yn teimlo bod yr amser yn iawn i wireddu eich breuddwyd a dechrau busnes bach, gan weithredu fel unig fasnachwr neu bartneriaeth.

Rydych yn sylweddoli na fydd y gymynrodd yn ddigon i dalu'r holl gostau o ddechrau'r busnes, a bydd angen i chi gael cyllid ychwanegol gan ffynhonnell arall. Fodd bynnag, mae'n rhoi man cychwyn i chi.

Rydych chi wedi penderfynu cynnal ymchwil a chynllunio manwl, yna casglu'r wybodaeth mewn cynllun datblygu busnes a'i gyflwyno ar ffurf broffesiynol. Dylai hyn ddangos yn glir eich syniad busnes fel busnes â'r potensial i fod yn ddichonadwy y mae'n werth buddsoddi ynddo. Dylai eich cynllun datblygu busnes esbonio'n glir eich syniad a'r costau cysylltiedig i fenthyciwr/buddsoddwr potensial.

**Rhaid i chi lunio'r dystiolaeth asesu canlynol ar gyfer yr uned hon.**

Rhaid i chi greu cynllun datblygu busnes er mwyn argyhoeddi benthyciwr/buddsoddwr posibl. Mae'n bwysig bod eich cynllun datblygu busnes yn dangos y canlynol yn glir:

- Eich syniad busnes gyda rhesymau dros eich dewis a'r ymchwil sy'n cyd-fynd â hyn, ynghyd â sut rydych chi wedi defnyddio canfyddiadau'r ymchwil. Mae'r strategaethau marchnata/hyrwyddo sy'n gysylltiedig â'r syniad o'ch dewis ac unrhyw ddadansoddiad a gwerthusiad a gynhaliwyd i gyfiawnhau ymhellach ddatblygiad eich syniad busnes.

  **(28 marc)**

- Yr adnoddau corfforol, ariannol a dynol sy'n ofynnol i sefydlu a datblygu'r busnes, ynghyd ag ystyriaeth o agweddau perthnasol ar y gyfraith sy'n berthnasol i'r syniad o'ch dewis. Ymdriniaeth o ran sut bydd sicrhau ansawdd yn cael ei gynnwys a'i fonitro, yn enwedig mewn perthynas â darpar gwsmeriaid a sut y bydd yr agweddau dynol ac ariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol wrth i'r busnes ddatblygu.

  **(14 marc)**

- Dylai manylion ariannol gynnwys ffynonellau cyllid, cyllidebau sefydlu, rhagolwg llif arian blynyddol ar gyfer y flwyddyn gyntaf, mantolen agoriadol, rhagolwg elw a cholled a rhagolwg adennill costau (*break-even forecast*). Dadansoddiad addas o'r ffigurau y rhagwelir a gwerthusiad o unrhyw newidiadau posibl (economaidd, cyfreithiol, gwleidyddol, cymdeithasol) sy'n debygol o effeithio ar y busnes yn y flwyddyn gyntaf a'r ddwy flynedd dilynol o fasnachu.

  **(27 marc)**

- Rhagamcan o sefyllfa'r busnes dros y ddwy flynedd ddilynol. Ystyriaeth o elfennau ariannol, yr anawsterau o amcangyfrif sefyllfaoedd yn y dyfodol mewn perthynas ag ystyriaethau llif arian, proffidioldeb a hylifedd. Dadansoddiad o'r cymarebau allweddol a gwerthusiad o'r canlyniadau hyn, ynghyd â rhesymau dros bwysigrwydd mesurau perfformiad busnes o'r fath wrth i'r busnes ddatblygu.

  **(21 marc)**

**Cyfarwyddiadau ar gyfer ymddygiad yr asesiad**

1. Y senario a roddwyd yw'r **unig** gyfrwng ar gyfer asesu Uned 8: Datblygu Busnes.

2. Ar wahân i'r ddogfen hon ni fydd **unrhyw bapur arholiad** ar gyfer yr asesiad.

3. Cynhelir asesiad gan aseswyr y ganolfan, y bydd eu penderfyniadau yn amodol ar gael eu safoni gan safonwyr allanol Edexcel. Cynhelir yr holl waith safoni trwy anfon sampl o waith yr ymgeiswyr a fydd yn cael ei nodi ar ddogfennau a anfonir at y ganolfan ym mlwyddyn yr arholiad. Bydd hyn yn digwydd yr un pryd ag y caiff yr unedau portffolio eu safoni, yng nghyfres safoni'r haf.

4. Rhaid cynnal gwaith o dan amodau a reolir.

5. Rhaid i waith yr ymgeiswyr gael ei gwblhau a'i asesu gan y ganolfan ar **ddiwedd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau i'w safoni**.

6. Dylai ymgeiswyr dreulio dim mwy na chyfanswm o 15 awr o dan sefyllfaoedd a reolir yn cwblhau'r cynllun busnes.

7. Rhaid cofnodi marciau'r ymgeiswyr ar y ffurflenni OPTEMS priodol a'u dychwelyd i Edexcel erbyn **y terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau i'w safoni**.

8. Rhaid i dystiolaeth i'w hasesu yn erbyn Uned 8 gael ei llunio'n benodol i fodloni gofynion y senario.

9. **Dylai canolfannau nodi y caiff yr uned hon ei safoni yn yr haf yn unig, ac y gall marciau a gwaith ymgeiswyr gael eu cyflwyno bryd hynny'n unig.**

**Asesu Uned 8**

Bydd yr asesiad a osodwyd yn allanol ar gyfer Uned 8 ar gael ar wefan Edexcel (www.edexcel.org.uk) o fis Mehefin 2006 ar gyfer yr arholiad cyntaf ym mis Mehefin 2007. Ni fydd unrhyw bapur arholiad ar gyfer yr asesiad yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen hon.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar ymchwil ffurfiannol a gynhelir cyn yr amodau rheoledig. Fodd bynnag, rhaid amlinellu graddau'r ymchwil rhagarweiniol yn y ffurflen 'Datganiad o Amodau Asesu' ar dudalen 5.

Rhaid cynnal gwaith o dan amodau a reolir sy'n cynnig ffordd effeithiol o wirio dilysrwydd gwaith cwrs. Diffinnir amodau a reolir fel a ganlyn:

- Rhaid gwneud gwaith yn yr ystafell ddosbarth a/neu wrth gyfrifiadur a rhaid i athro busnes oruchwylio i sicrhau y gellir dilysu'r gwaith.

- Gall ymgeiswyr droi at ysgogiad y dasg, nodiadau ymchwil a geiriadur.

- Rhaid i ymgeiswyr beidio â throi at y rhyngrwyd o dan unrhyw amgylchiadau wrth weithio dan amodau a reolir.

- Bydd ymgeiswyr yn gwybod tasg y gwaith cwrs cyn yr amodau a reolir a gallant dreulio amser yn nodi cyfle busnes dilys wrth baratoi ar gyfer y dasg a reolir.

- Nid oes cyfyngiadau ar ymchwil ffurfiannol a gynhelir cyn yr amodau a reolir. Fodd bynnag, rhaid amlinellu graddau'r ymchwil ragarweiniol ar y ffurflen 'Datganiad o Amodau Asesu'.

- Dylai'r cynllun datblygu busnes a grëir yn ystod yr amodau a reolir hyn fod o ansawdd addas i gyflwyno i ddarparwr cyllid yn unol â'r Meini Prawf Asesu.

- Er na nodir isafswm oriau ar gyfer yr ymarfer hwn, rhagwelir y dylai ymgeiswyr gael o leiaf 10 awr i gwblhau'r aseiniad o dan amodau a reolir.

- Dylai ymgeiswyr dreulio dim mwy na chyfanswm o 15 awr yn cwblhau'r cynllun datblygu busnes.

- Gallai'r amodau a reolir gael eu hymestyn dros nifer o ddyddiau neu wythnosau.

- Yn yr achos tebygol na chaiff y gwaith ei gwblhau mewn un sesiwn, rhaid i'r athro/athrawes ei storio'n ddiogel tan y sesiwn nesaf a reolir.

- Rhaid cadw cofnod o ran pryd ac o dan ba amodau y cafodd y gwaith yn ffolder yr ymgeisydd ei gwblhau. Llenwch y ffurflen 'Datganiad o Amodau Asesu' ar dudalen 5 y ddogfen hon y mae'n rhaid ei defnyddio at y diben hwn.

- Er mwyn asesu gwaith yn gywir a mesur graddau dealltwriaeth busnes yr ymgeisydd, mae'n ofynnol i ganolfannau wneud datganiad ffurfiol o ffynonellau a deunyddiau cymorth a ddefnyddir gan gynnwys geiriaduron traddodiadol a geiriaduron ar-lein. Rhaid i ganolfannau hefyd gadw copi o daflenni gwaith a ddyfeisiwyd gan y ganolfan, tudalennau gwefannau a chopïau o dudalennau perthnasol o werslyfrau a ddefnyddiwyd. Rhaid i'r defnydd o'r deunydd hwn gael ei ddal ar log gwybodaeth neu ar y ffurflen 'Datganiad o Amodau Asesu'.

- Mae'n ofynnol i athrawon ac ymgeiswyr ddilysu'r cynllun datblygu busnes fel gwaith yr ymgeisydd ei hun ar flaen y daflen cofnodi marciau y dylid ei hamgáu gyda gwaith yr ymgeisydd.

edexcel
advancing learning, changing lives

Datganiad o Amodau Asesu

## Edexcel GCE mewn Busnes Cymhwysol

### Uned 8: Datblygu Busnes

Rhif y ganolfan: ______________ Enw'r ganolfan: ______________

Rhif yr ymgeisydd: ______________ Enw'r ymgeisydd: ______________

Amser a dreuliwyd o dan amodau a reolir: [ ]

Gwaith a Gwblhawyd wrth baratoi ar gyfer yr Asesiad a Reolir:

Gwaith a Gwblhawyd o dan Amodau a Reolir:

Rwy'n datgan bod y gwaith a gyflwynwyd i'w asesu a'r wybodaeth uchod yn gywir ac yn dderbyniol o dan y cynllun asesu.

Enw'r Athro/Athrawes: ______________

Llofnod yr Ymgeisydd: ______________ Llofnod yr Athro/Athrawes: ______________

Safonwyr Edexcel yn unig

Rhif: Enw: Llofnod:

**Uned 8 – Meini prawf asesu Datblygiad Busnes**

| | Band Marciau 1 | Band Marciau 2 | Band Marciau 3 | Marc a ddyfarnwyd |
|---|---|---|---|---|
| (a) **AO1, AO2, AO3, AO4** | Dewiswyd syniad busnes posibl, gan roi rhesymau sylfaenol dros ei ddewis a'i ddichonoldeb a chan amlinellu strategaethau marchnata/hyrwyddo a nodi gwybodaeth am gystadleuwyr. **(1-14)** | Gwybodaeth gadarn am syniad busnes a gefnogir gan dystiolaeth o ddichonoldeb a strategaethau manwl gyda rhywfaint o gyfiawnhad o'r cynnig. Gwybodaeth gadarn am gystadleuwyr. **(15-22)** | Syniadau cynhwysfawr a gwreiddiol gyda thystiolaeth a chynigion wedi'u cefnogi a'u cyfiawnhau yn llawn. Gwybodaeth gynhwysfawr a gwreiddiol am gystadleuwyr. **(23-28)** | **28** |
| (b) **AO1, AO2, AO3, AO4** | Ymdrinnir â gofynion o ran adnoddau a materion ansawdd ar lefel sylfaenol. **(1-7)** | Cyflwynir materion o ran adnoddau ac ansawdd yn gadarn, gydag enghreifftiau perthnasol a chymhwyso da. **(8-11)** | Cyflwynir materion o ran adnoddau ac ansawdd yn gynhwysfawr gyda thystiolaeth fanwl wedi'i chefnogi'n llawn. **(12-14)** | **14** |
| (c) **AO1, AO2, AO3, AO4** | Cynllun cyllid yn darparu gwybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer ffynonellau, cyllidebau, llif arian, adennill costau a chyfrifon. **(1-13)** | Cynllun cyllid manwl yn ymdrin â'r holl agweddau gofynnol gan ddangos annibyniaeth o ran meddwl a dealltwriaeth glir. **(14-20)** | Cynllun cyllid cynhwysfawr, wedi'i gyflwyno'n broffesiynol gyda chymhwyso a dadansoddi cywir rhagolygon yn dangos gwreiddioldeb, annibyniaeth o ran meddwl a dealltwriaeth glir. **(21-27)** | **27** |
| (d) **AO1, AO2, AO3, AO4** | Gwerthusiad syml o sefyllfa'r busnes ar ddiwedd y flwyddyn ac a ragwelir ar gyfer y tair blynedd sy'n dilyn. **(1-10)** | Dadansoddiad a gwerthusiad cadarn o'r sefyllfa bresennol ac a ragwelir gan ddangos annibyniaeth o ran meddwl. **(11-16)** | Dadansoddiad a gwerthusiad cynhwysfawr o'r sefyllfa bresennol ac a ragwelir gydag argymhellion manwl a gwreiddiol a chasgliadau cyfiawn. **(17-21)** | **21** |
| | | | **Cyfanswm y marciau** | **90** |

**TUDALEN WAG**

**TUDALEN WAG**